Hyfforddiant:

Bydd hyfforddiant yn cael ei drefnu yn ystod y flwyddyn - bydd yn mynd i'r afael â phob math o destunau e.e. technegau dysgu, adnoddau, technoleg yn y dosbarth, magu hyder, a llawer mwy. Bydd y sesiynau hyfforddiant hyn yn gyfle i chi rwydweithio a rhannu syniadau gyda thiwtoriaid eraill.

Bydd sesiynau hyfforddiant yn cael eu trefnu'n lleol ac yn genedlaethol yn ystod y flwyddyn. Mae mwy o wybodaeth ar gael yma.

Cymhwyster Cenedlaethol:

Am fwy o wybodaeth ar sut i gymhwyso i fod yn diwtor Cymraeg i Oedolion cysylltwch â swyddfa@dysgucymraeg.cymru

Mae cwrs newydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ar gyfer tiwtoriaid newydd.